

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

20 Chwefror 2019

Annwyl Mr Ramsay

### Systemau Gwybodeg yng Nghymru

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Ionawr. Rwyf wedi cael eich cais i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2019, ond yn anffodus oherwydd cymryd gwyliau personol bryd hynny, ni allaf fod yn bresennol ar y dyddiad dan sylw. Mae fy swyddfa yn cysylltu â'ch clerod i ddod o hyd i ddyddiad arall pan fyddaf yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd a wnaed.

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod o'r dystiolaeth amrywiol a manwl a gafodd ei chyflwyno yn ystod pob un o'r sesiynau ar Wybodeg yn GIG Cymru, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r Byrddau Iechyd yn gweithio ar nifer helaeth o systemau rhyng-ddibynnol, rhai ohonynt yn deillio o systemau lleol, sy'n gweithredu mewn amgylchedd cymhleth lle mae cyflwyno ffyrdd digidol newydd o weithio yn uchelgais heriol.

Mae *Cymru Iachach* yn amlinellu'n glir ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn ffyrdd digidol newydd o weithio, ac i sicrhau ein bod yn datrys unrhyw broblemau sy'n codi wrth i'r gwaith o'u cyflwyno fynd rhagddo. Er mwyn cefnogi hyn, rwyf wedi comisiynu adolygiad o seilwaith a systemau a fydd yn canolbwyntio ar yr arferion gorau a ddefnyddir i ddarparu gofal iechyd yn ddigidol yn rhannau eraill o'r byd. Disgwylir i adroddiad yr adolygiad ddod i law ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cael adroddiad sy'n deillio o'r adolygiad o sut mae gwybodeg yn cael ei llywodraethu yn GIG Cymru. Mae'n argymhell nifer o gamau gweithredu radical i'w hystyried yn y tymor byr a'r tymor canolig, gan gynnwys:

- Penodi Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd i gryfhau arweinyddiaeth ddigidol yn genedlaethol;



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0251182  
Andrew.Goodall@gov.wales

Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

- Creu awdurdod safonau newydd a safonau gorfodol mewn perthynas â gwybodeg;
- Sefydlu tîm datblygu digidol newydd i gefnogi arloesedd a chyflymu'r gwaith darparu, yn unol â blaenoriaethau a bennir yn genedlaethol;
- Tynnu ynghyd y gwasanaethau gwybodeg rhanbarthol a chenedlaethol gwasgaredig presennol mewn trefniant sy'n seiliedig ar gyd-wasanaethau ar gyfer data, seilwaith, a gweithredu.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad cyn gwyliau'r Pasg, a hynny'n benodol ynghylch ymateb i'r adroddiad llywodraethu. Serch hyn, caiff y ddau adroddiad eu cyhoeddi, a byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y newyddion diweddaraf am y bwriad i weithredu ei argymhellion. Y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cefnogi gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, drwy ddarparu platform cadarn ar gyfer cyflwyno newidiadau trawsnewidiol yn llwyddiannus. Rydym wedi neilltuo £50m o gyfalaf a referiw ychwanegol ar gyfer y maes pwysig hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn y cyfamser, ni ddylid diystyru'r gwaith caled a wneir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrth iddo gynnal y gwasanaeth presennol, hyd yn oed wrth i ni fwrw ymlaen â'r cynlluniau i drawsnewid y gwasanaethau digidol. Rhaid i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r Byrddau Iechyd ganolbwyntio gan mwyaf ar ddarparu cymorth a chynnal y systemau cymhleth y mae'n gyfrifol amdanynt o ddydd i ddydd, megis y systemau gweinyddol sy'n rheoli'r gwaith gweinyddol mewn perthynas â chleifion mewn ysbytai. Mae'n cofnodi manylion ymweliadau'r claf â'r ysbyty, gan gynnwys rheoli'r rhestr aros, cofnodion meddygol, manylion trin y claf yn fewnol, apwyntiadau fel claf allanol, ac ymweliadau brys. Mae hyn ochr yn ochr â'r angen i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru barhau i arloesi ac i ddatblygu'r systemau sydd ar waith ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae Porth Clinigol Cymru yn darparu modd i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol allu gweld dogfennau gofal clinigol, gan gynnwys dogfennau atgyfeirio, llythyron clinigau, achosion o ddefnyddio adrannau brys, a llythyron meddygon teulu.

Bydd y Pwyllgor yn dymuno gwybod bod y tair problem sylweddol a gododd gyda'r ganolfan ddata y llynedd wedi digwydd ar adeg pan oedd newidiadau angenrheidiol i'r seilwaith yn cael eu cyflwyno. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru bellach wedi mabwysiadu proses well ar gyfer cyflwyno newidiadau er mwyn rhoi sylw i'r hyn a ddysgwyd ynghylch rheoli newidiadau. Mae newidiadau'n cael eu gweithredu mewn perthynas â'r cymwysiadau a'r seilwaith sydd ar waith yn ddyddiol yn y canolfannau data. Ymgwymerwyd â chyfanswm o 7,000 o newidiadau rhwng mis Medi 2017 a mis Hydref 2018. O'r 21 o fethiannau mewn systemau yr adroddwyd arnynt wrth y Pwyllgor, roedd dau yn effeithio ar fwy nag un system lle y gallent fod wedi cael effeithiau eang. Roedd un digwyddiad wedi ymwneud â'r gwasanaeth negeseuon (e-byst) lletyol, ac roedd yr 18 o ddigwyddiadau a oedd yn weddill wedi effeithio ar y cymwysiadau unigol sy'n gysylltiedig â systemau *WLIMS* a *WLIMS* heb effeithio ar wasanaethau eraill.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn monitro rhagweithiol ac mewn gweithgareddau uwchraddio sydd wedi eu cynllunio. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi mynd ati i brofi'r gallu i symud yr holl wasanaethau hanfodol mewn modd a fyddai'n caniatáu iddynt gael eu rhedeg mewn canolfan ddata arall pe bai problem fawr yn codi mewn canolfan ddata. Mae hynny'n rhan o'r gweithgarwch parhaus i sicrhau bod busnes yn mynd rhagddo fel arfer.

Mae buddsoddiadau'n cael eu blaenoriaethu gyda'r nod o ddiweddarau caledwedd a systemau sy'n cyrraedd diwedd eu hoes, ac mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £1.65m ychwanegol i gryfhau systemau i wrthsefyll bygythiadau seibr.

Rydym yn barod iawn i gydnabod effeithiau methiannau mewn systemau gofal critigol, ac mae'n amlwg inni fod angen gwella. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi na fu unrhyw fethiannau mawr mewn canolfannau data ers mis Ebrill 2018. Er y bu problemau gyda systemau unigol, fel arfer byddai'r gwasanaethau yn cael eu hadfer yn gyflym. Yn unol â'ch cais, byddwn yn darparu manylion inni fod yn bresennol y tro nesaf.

Er bod angen gwneud gwaith o hyd i ymgorffori'r ffordd ddigidol o weithio ar draws y gwasanaeth, rydym yn canolbwyntio ar gynnydd ac ar ddisgwyliadau, wrth inni fynd ati i gyflawni'r ymrwymadau a nodir yn *Cymru Iachach*. Rwy'n disgwyl gweld gwelliant sylweddol yn ystod 2019.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**